OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 1208 (Cy. 131)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cilfannau'r Gurnos, Merthyr Tudful) (Gwahardd Troadau Pedol) 2013

Gwnaed	*17 Mai 2013*
Yn dod i rym	*23 Mai 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A465 o Gastell-nedd i'r Fenni (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**)**(1)** ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

Enwi a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Mai 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cilfannau'r Gurnos, Merthyr Tudful) (Gwahardd Troadau Pedol) 2013.

Cyfyngiad

2. Ni chaiff neb peri na chaniatáu i unrhyw gerbyd wneud troad pedol wrth fynd tua'r dwyrain neu tua'r gorllewin ar y gefnffordd wrth y Gurnos, ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, o bwynt sydd 55 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt tanbont Gurnos Road i bwynt sydd 425 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt tanbont Gurnos Road.

(**1**) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Mai 2013

R Morgan

R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru